# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2018 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Alan James, Barry Mellor a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Alan James yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu hanfon ynghynt at bawb ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – CO-OP (SAFLE ADEILAD NEWYDD YN GYFAGOS I LYS YR YNADON, PRESTATYN), VICTORIA ROAD, PRESTATYN

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

(i) cais wedi dod i law gan Co-op Food Limited mewn perthynas â Co-op, Victoria Road, Prestatyn (Atodiad A i'r adroddiad);

(ii) y bwriad i weithredu'r eiddo fel siop gyfleus a fydd ar agor bob dydd o'r wythnos ac yn gwerthu nwyddau, eitemau amrywiol ac alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn unig;

(iii) mae'r ymgeisydd wedi gofyn am awdurdod i ddarparu alcohol fel a ganlyn -

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSEROEDD |
|---|---|---|
| Darparu Alcohol (i'w yfed oddi ar y safle) | Dydd Llun – dydd Sul | 06.00 – 23:00 |
| Oriau y bydd yr eiddo yn agored i'r cyhoedd | Dydd Llun – dydd Sul | 06.00 – 23:00 |

(iv) mae un sylw ysgrifenedig (Atodiad B i'r adroddiad) wedi dod i law gan barti â diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus, yn ymwneud ag aflonyddwch posibl o sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

(v) mae'r ymgeisydd wedi nodi parodrwydd i gyfryngu gyda'r parti sydd â diddordeb, fodd bynnag, mae'r gwrthwynebydd wedi nodi bod gwell ganddynt i'r mater ddod ger bron aelodau;

(vi) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyladwy i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; deddfwriaeth arall berthnasol ac i sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a'r

(vii) opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd Mr. R. Arnot, Cyfreithwyr Ward Hadaway a Mr. O. Jones, Rheolwr Siop Co-op yn bresennol ar ran yr Ymgeisydd (Co-operative Food Limited).

Wrth gyflwyno achos ei gleient, rhoddodd Mr. Arnot -

- ychydig o wybodaeth gefndir i Co-operative Food Limited, gan roi gwybod ei fod yn fanwerthwr mawr, adnabyddus, hir-sefydledig gydag enw da, gyda chynlluniau am ragor o fuddsoddiad ac ehangiad i Gymru; eglurodd werthoedd craidd Co-op hefyd a'u bod yn cefnogi cymunedau lleol ac elusennau
- rhoddwyd gwybod bod y cais yn ymwneud ag adeilad newydd Siop Co-op ym Mhrestatyn, a oedd i fod i agor yn Ebrill 2019 gydag oriau agor safonol (6.00 am - 11.00 p.m.) er mwyn gwasanaethu i anghenion cwsmeriaid ac adlewyrchu arferion siopa modern
- dangoswyd bod gwerthiant alcohol yn ymwneud â thua 15% o'r trosiant, gydag 85% o'r trosiant yn ymwneud â bwyd ac eitemau amrywiol, gan ddangos bod gwerthiant alcohol yn ategol at amrediad eang o gynhyrchion domestig y Siop
- ymhelaethwyd ar bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr Co-op, gan gynnwys pob mater yn ymwneud ag oedran, gyda chyfeiriad penodol at hyfforddiant a systemau ar gyfer sicrhau y cedwir yn llym at y polisi Her 25 (roedd manylion ynghylch Llawlyfr Hyfforddiant Craidd Co-op a gwybodaeth Oedran yn Bwysig wedi'u cylchredeg yn flaenorol i aelodau, ynghyd â chynllun bloc o'r eiddo)
- cynllun manwl o'r eiddo a lleoli alcohol yn strategol oddi wrth y fynedfa, er mwyn atal mynediad uniongyrchol at gwsmeriaid, ynghyd â nifer a lleoliad y camerâu TCC mewnol ac allanol
- cynghorwyd, yn unol â'r arfer, y cysylltwyd â'r Heddlu yn ystod y cam cynnar yn y broses a'u bod wedi cadarnhau eu bod yn fodlon o ran cynigion ar gyfer y Siop; tynnwyd sylw hefyd at y ffaith nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r cais wedi dod i law gan awdurdodau cyfrifol
- dyfynnwyd Canllaw a gyflwynwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 10.15 yn ymwneud ag oriau masnachu: "Dylai siopau ac archfarchnadoedd fod yn rhydd i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar unrhyw adeg pan fydd y siop yn agored, oni bai bod rhesymau da, yn seiliedig ar amcanion trwyddedu, ar gyfer

cyfyngu ar yr oriau hynny" a gafodd ei adlewyrchu hefyd yn Natganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, Adran 8.5: "Caiff siopau ac archfarchnadoedd ganiatâd yn gyffredinol i werthu alcohol yn ystod oriau arferol maent yn bwriadu agor, ond gall eiddo unigol, y mae ardal yn canolbwyntio arnynt ar gyfer anhrefn ac aflonyddwch, yn amodol ar sylwadau, fod yn destun y cyfyngiadau hyn".

Ar ôl darparu mesurau manwl ynghylch sut roedd y Co-op yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ymatebodd Mr. Arnot yn uniongyrchol i'r sylw ysgrifenedig a ddaeth i law ac atgoffodd aelodau fod y cyfrifoldeb ar y gwrthwynebydd i roi tystiolaeth o fethiant tebygol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi yn yr achos hwn yn unol â'r oriau agor, ac roedd y mater ar gyfer y gwrandawiad yn ymwneud â'r cais i werthu alcohol yn unig. Dadleuwyd bod y safle'n lleoliad perffaith ar gyfer siop gyfleus i wasanaethu cwsmeriaid sy'n cyrraedd ar droed ac ar y ffordd, ac o ystyried fod yr eiddo ar lwybr bws, nid oedd yn ardal breswyl yn unig. O ran ofnau preswylwyr o niwsans cyhoeddus, fe gyflwynwyd eu bod yn ddi-sail - byddai'r Siop a'r maes parcio'n cael eu goleuo'n dda gyda chamerâu TCC yn cael eu gweithredu, ac nid oedd unrhyw beth i ddenu pobl ifanc i gasglu yn yr ardal honno. Roedd profiad yn y gorffennol o wrandawiadau trwyddedu, gyda phryderon tebyg gan breswylwyr wedi dangos nad oedd y problemau a ragwelwyd wedi digwydd ac roedd y preswylwyr hynny bellach yn gwsmeriaid rheolaidd.

Mewn ymateb i gwestiwn aelod, rhoddodd Reolwr Siop y Co-op, Mr. Jones, wybod fod y siop roedd yn ei rheoli'n rhannu maes parcio gyda thafarn ac nid oedd unrhyw faterion o niwsans cyhoeddus neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd gan y siop berthynas ragorol gyda'r gymuned, ac yn unol â'u cais, roeddent wedi codi arian yn ddiweddar ar gyfer diffibriliwr. Nid oedd unrhyw faterion hysbys o aflonyddwch neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r siopau Co-op hyn.

**CYFLWYNIAD Y PARTI Â DIDDORDEB**

Roedd un sylw ysgrifenedig wedi dod i law (Atodiad B i'r adroddiad) gan y Cynghorydd Tony Flynn ar ran ei breswylwyr yn Ward Gogledd Prestatyn, yn gwrthwynebu'r gwerthiant o alcohol yn yr eiddo o 6.00 am tan 11.00 pm ar sail niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Diolchodd y Cynghorydd Flynn i'r Co-op am eu buddsoddiad yng Ngogledd Cymru a'u croesawu i ardal ei ward. Fe wnaeth gydnabod a chroesawu'r mesurau hefyd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, a rhoddodd wybod bod y gwrthwynebiad hwn yn ymwneud â gwerthu alcohol yn ystod oriau hwyrach yn unig. Wrth gyfeirio at ei sylw ysgrifenedig, eglurodd bryderon preswylwyr ynghylch niwsans sŵn ac aflonyddwch gan gwsmeriaid yn hwyr yn y nos, o ystyried pa mor agos yw mynediad y siop at eiddo ar Windermere Drive. Wrth gydnabod llwyddiant Siopau'r Co-op ym Mhrestatyn a Rhuddlan, dywedodd nad oedd y siopau hynny wedi'u lleoli mewn ardal breswyl ddistaw fel yn yr achos hwn, lle'r oedd plant ifanc a phobl hŷn yn mynd i'r gwely am 9.00 pm. O ganlyniad, roedd y gwrthwynebiad yn seiliedig ar werthu alcohol ar ôl 9.00 pm, a allai arwain at amharu ar breswylwyr cyfagos wrth geisio cysgu, yn enwedig o ystyried bod sŵn yn swnio'n uwch ac yn teithio ymhellach yn ystod yr oriau hwyrach hynny. Cyfeiriodd y Cynghorydd Flynn hefyd at eiddo eraill yn gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos yn yr ardal, ond nid yn yr ardal

breswyl honno'n uniongyrchol. Wrth gloi, rhoddodd wybod y byddai preswylwyr yn cefnogi'r Co-op ond roeddent yn gwrthwynebu'r oriau trwyddedu hwyrach, a gofynnodd yn barchus a oedd modd cyfyngu ar y rhain.

Edrychodd yr Aelodau ar gynllun o'r eiddo gan ystyried lleoliad y siop yn yr ardal a'i hagosatrwydd at eiddo preswyl. Nodwyd bod Gorsaf Heddlu yn arfer bod ar y safle a fyddai yn ei hun wedi arwain at lefel benodol o sŵn ac aflonyddwch. Mewn ymateb i gwestiynau, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o ran niwsans/aflonyddwch cyhoeddus neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, mewn perthynas ag eiddo eraill y cyfeiriwyd atynt yn yr ardal yn gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos. Awgrymodd Mr. Jones y gallai gwrthod gwerthu alcohol ar ôl 9.00 pm tra bod y siop yn agored i gwsmeriaid, greu problemau yn ei hun.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Wrth wneud datganiad terfynol, ail-adroddodd Mr. Arnot y rhinweddau o fyw ger Siop y Co-op a pha mor gyfleus ydyw i siopwyr, yn enwedig i'r rhai hynny ag oriau gweithio anghonfensiynol, ac roedd yr oriau agor yn gwasanaethu ar gyfer galw siopa modern. Gofynnodd i aelodau ystyried yr effaith debygol o werthu alcohol yn y siop ar ôl 9.00 pm, gan gadw mewn cof bod gwerthiannau alcohol ddim ond yn cyfrif am oddeutu 15% o'r trosiant.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (2.30 p.m.) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *rhoi'r Drwydded Eiddo fel yr ymgeisiwyd amdani, ac yn unol â'r amodau fel y nodwyd o fewn yr Atodlen Weithredu, ar gyfer y canlynol -*

| ***GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG*** | ***DYDDIAU PERTHNASOL*** | ***AMSEROEDD*** |
|---|---|---|
| *Darparu Alcohol (i'w yfed oddi ar y safle)* | *Dydd Llun – dydd Sul* | *06.00 – 23:00* |
| *Oriau y bydd yr eiddo yn agored i'r cyhoedd* | *Dydd Llun – dydd Sul* | *06.00 – 23:00* |

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i bawb yn y cyfarfod a rhoddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn -

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais a'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr achos hwn yn ofalus.

Roedd y Co-op wedi rhoi cyfrif cynhwysfawr a manwl ynghylch sut roedd yn gweithredu fel Cwmni, a sut roedd yn cydymffurfio â'r Amcanion Trwyddedu. Rhoddwyd llawer iawn o fanylder yn y ffurflen gais ei hun, ond roedd y manylion a roddwyd gan gynrychiolydd y Co-op yn dangos dull hyderus a chynhwysfawr o ran sut roedd y Cwmni'n cydymffurfio â Deddf Trwyddedu 2003. Fe wnaeth yr Is-bwyllgor ganfod fod eu dull yn bodloni'r Amcanion Trwyddedu yn llawn.

Tra bod sylwadau wedi dod i law yn codi pryderon ynghylch beth allai ddigwydd unwaith y byddai Siop y Co-op yn gweithredu, nid oedd gan y cwynion unrhyw sylwedd fel tystiolaeth.  Byddai Siop y Co-op yn parhau yn agored o 6.00 am tan 11.00 pm boed a werthir alcohol ai peidio.  Roedd yn siop gyfleus yn ôl ei natur ac yn gwasanaethu'r cyhoedd ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.  Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno neu ei chynnig o ran materion ymddygiad neu niwsans gwrthgymdeithasol gan eiddo eraill yn gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos, a oedd yn yr un ardal.

Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi canfod unrhyw dystiolaeth y byddai unrhyw drosedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus yn codi o'r eiddo, pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi. Mewn achos annhebygol y byddai unrhyw faterion, roedd gan y Co-op a'i reolwr bolisïau a gweithdrefnau cadarn ac wedi'u profi ar gyfer delio ag unrhyw faterion, drwy TCC, goleuadau, polisïau Her 25 a hyfforddi staff yn gynhwysfawr.  O ganlyniad, ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu nad oedd achos i wrthod neu addasu'r cais wedi'i wneud, a phenderfynwyd rhoi'r cais fel yr ymgeisiwyd amdano.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.50pm.